

Cymdeithas Bob Owen

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 35

Tanysgrifiad Blynnyddol i'r Ysgrifennydd £3 AWST 88

CROESO

I CHI sy'n dod, gan ysu i dalu am eich Casglwr yn y Brifwyl yng Nghasnewydd, byddwn yno i'ch croesawu chi a phawb ym MHABELL YR HEN BOST, Siop Lyfrau Blaenau Ffestiniog.

Cofiwch am ddarlith flynyddol y Gymdeithas yn y Babell Lân am ddeg y bore ddydd Gwener i wrando ar Dr. Sian Rhiannon yn cyflwyno cip ar hanes argraffu a chyhoeddi yng Ngwent.

Diolch am gefnogaeth ysgrifenyddol a hysbysebwyddol ac am roddion i'n cadw uwchlaw'r dŵr. A hyfryd yw gweld y darllenwyr yn dal ar gynnydd. A phob aelod newydd yn cael y rhifyn hwn ac un y Nadolig yn ychwanegol at dri rhifyn y flwyddyn nesaf. Y cyfan am dair punt.

Dychymyg Arglwyddes Llanofar 1802 – 1896 CAMPAU Y WENYNEN O WENT



Dillad Cymreig rhan o Went yn ôl Arglwyddes Llanofar.

Gan RICHARD LEWIS

FEL Gwenynen Gwent neu Arglwyddes Llanofar y byddwn yn cyfeirio at Augusta Waddington Hall, Llys Llanofar, fel arfer. Y mae yna arwyddocâd arbennig iddi eleni, blwyddyn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd a'r Cylch.

Merch iau Benjamin a Georgina Waddington, Tŷ Uchaf Llanofar ydoedd ac fe gafodd ei geni yn 1802. Priododd â Benjamin Hall, Arglwydd Llanofar yn 1823, gŵr a ddewiswyd yn aelod seneddol dros fwrdeistrefi Sir Fynwy yn 1831 ond a gollodd ei sedd ar ôl i betisiwn gael ei hystyried. Fe'i hetholwyd eilwaith yn 1832 a pharhaodd yn aelod drostynt hyd 1837 pryd y daeth yn aelod dros



Marylebone.

Yn ystod ei dymor ef fel Comisiynydd Gwaith yn Nhŷ'r Cyffredin y codwyd ac yr enwyd y tŵr a'r cloc a elwir yn Big Ben.

FEL UN o noddwyr amlycaf y diwylliant gwerin Cymreig yn enwedig cerddoriaeth, dawns a'r Wisg Gymreig, y cofiwn am Wenynen Gwent erbyn heddiw. Mae'n debyg mai digon brith oedd ei gwybodaeth o'r iaith Gymraeg, serch hynny roedd yn frwd iawn dros bopeth Cymraeg ac mae'n debyg iddi drefnu ei chartref yn ôl yr hyn a dybiai

oedd y dulliau Cymreig traddodiadol.

O dan ddylanwad Thomas Price 'Carnhuanawc' daeth yn aelod cynnar o Gymreigyddion y Fenni. Yr oedd yn noddwr i'r Welsh Manuscripts Society, prynodd lawysgrifau Iolo Morganwg gan ei fab 'ab Iolo' - maent yn awr ar adnau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - cydweithiodd â Maria Jane Williams a Brinley Richards ar y gwaith o gasglu alawon gwerin, a rhoddodd gymorth ariannol i D. Silvan Evans gyda'i eiriadur mawr.

Mentrodd i'r byd llyfryddol



Un arall o ddilladau Gwent yn ôl Arglwyddes Llanofar.

hefyd ac ymysg ei chyhoeddiadau gellir enwi cymysgfa o'r enw Good Cookery.... a gyhoeddwyd yn 1867.

O'r safbwynt Cymru a'r Eisteddfod mae'n debyg mai un o'r ffeithiau mwyaf diddorol amdani yw iddi ennill gwobr am draethawd ar yr iaith Gymraeg yn Eisteddfod Frenhinol Caerdydd yn 1834.

Cymerodd ddiddordeb mawr yn y Wisg Gymreig ac mae lle i greu mai hi fu'n bennaf gyfrifol am ddatblygu'r syniad o un wisg genedlaethol, sef y wisg fel y gwyddom ni amdani heddiw gan gynnwys yr het fel un Mother Goose.

Y mae ei chasgliad o ddarluniau lliw o wisgoedd merched rhai o siroedd Cymru tua 1843 yn arbennig o ddiddorol.